Hawdd ei Ddeall

monmouthshire
sir fynwy

Practice Solutions

# Adolygiad Fy Niwrnod, Fy Mywyd

## Gwybodaeth am eich adolygiad i wasanaeth cymorth dydd i oedolion gydag anabledd dysgu yng Ngogledd Sir Fynwy



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Practice Solutions Ltd**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adolygiad Gwasanaeth Fy Niwrnod, Fy Mywyd Sir Fynwy i oedolion gydag anableddau dysgu**'.

**Ionawr 2023**

# Cyflwyniad

Ni ydy **Practice Solutions Ltd**. Rydyn ni'n gweithio i gefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i wneud yn well.

Mae Cyngor Sir Fynwy wedi gofyn inni wneud **adolygiad** o **wasanaeth cymorth dydd** yng ngogledd Sir Fynwy.



**Adolygiad** ydy pan rydyn ni'n edrych ar gynllun neu edrych ar sut mae rhywbeth yn gweithio i wneud yn siŵr ein bod yn gweithio yn y ffordd gorau.



Enw'r **gwasanaeth cymorth dydd** ydy **Fy Niwrnod, Fy Mywyd**. Mae ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu.

**Yn Tachwedd a Rhagfyr 2022 fe wnaethon ni gasglu barn a phrofiad:**



- pobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth




- pobl allai ddefnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol
- a staff sydd yn darparu'r gwasanaeth.

I wneud yn siŵr bod lleisiau pawb yn cael eu clywed fe wnaethon ni gasglu barn mewn gwahanol ffyrdd. Fe wnaethon ni:



- siarad gyda phobl wyneb yn wyneb




- siarad gyda phobl ar-lein



- rhedeg gweithgareddau oedd yn helpu pobl i rannu eu diddordebau a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol.

# Beth nesaf?




Fe fyddwn ni'n defnyddio beth mae pobl wedi ei rannu gyda ni i ysgrifennu adroddiad.



Fe fydd eich awgrymiadau ar gyfer beth ddylai ddigwydd i'r gwasanaeth yn y dyfodol yn cael eu rhoi yn yr adroddiad.



Fe fydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar sut mae'r gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl sydd yn ei ddefnyddio.




Fe fyddwn ni'n gofyn i staff, pobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth a'u teuluoedd i ddod i gyfarfod yn **Chwefror 2023**.



Fe fyddwn ni yn gofyn iddyn nhw beth maen nhw'n feddwl am yr adroddiad drafft ac am beth rydyn ni wedi ei awgrymu ddylai ddigwydd i'r gwasanaeth yn y dyfodol.




Fe fydd yr adroddiad drafft o'r **adolygiad** ar gael mewn Hawdd ei Ddeall ac yn Saesneg.




Fe fyddwn ni'n ysgrifennu'r adroddiad terfynol ym **Mawrth 2023**.



Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr **adolygiad**, rydych chi'n gallu e-bostio **Cyngor Sir Fynwy**: communications@monmouthshire.gov.uk




Rydych chi'n gallu dysgu rhagor am yr adolygiad ar wefan **Cyngor Sir Fynwy**: www.monmouthshire.gov.uk/cy/tudorstreet

Hawdd ei Ddeall

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.